# Ordinhad 29:

# Llywydd ac Is-ganghellor

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 14 Mehefin 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiedig |
| **Fersiwn:** | 2.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ebrill 2023 |

# Ordinhad 29:
# Llywydd ac Is-ganghellor

**A. Llywydd ac Is-ganghellor**

1. Penodir y Llywydd a'r Is-ganghellor gan y Cyngor.

2. Pan fydd swydd y Llywydd a'r Is-ganghellor yn wag, neu mae'n hysbys ei bod ar fin dod yn wag, penodir Pwyllgor Penodi o'r Cyngor, yn cynnwys:

   a. Cadeirydd y Cyngor, a fydd yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi;
   b. Dau aelod annibynnol arall a benodir gan, ac o'r Cyngor;
   c. Cynrychiolydd myfyrwyr sy'n aelod o'r Cyngor, a benodir gan Undeb y Myfyrwyr
   d. Dau aelod o'r Senedd, wedi'u henwebu gan y Senedd

   Yn ogystal, gellir gwahodd Is-ganghellor neu Bennaeth sefydliad arall i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

3. Ni fydd y Llywydd a'r Is-ganghellor sy'n gadael yn aelod o'r Pwyllgor, ond gall y Pwyllgor ymgynghori ag ef/hi.

4. Gall y Pwyllgor Penodi ofyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod yn bresennol.

5. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor.

6. Bydd swydd wag y Llywydd ac Is-ganghellor yn cael ei hysbysebu'n gyhoeddus. Bydd y Pwyllgor hefyd yn chwilio am ymgeiswyr posibl i'r swydd trwy ymholiadau preifat, neu mewn unrhyw fodd arall, a bydd yn adrodd i'r Cyngor.

7. Bydd gan y Pwyllgor Penodi y pŵer i bennu ei ddull gweithredu.

8. Bydd y Pwyllgor Penodi yn cyflwyno adroddiad o'u hargymhellion mewn perthynas â phenodi Is-ganghellor i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

9. Bydd y Cyngor yn penodi Is-ganghellor yn ôl y telerau ac amodau y mae'n ystyried yn briodol.

**B. Swyddogaethau'r Llywydd a'r Is-Ganghellor**

1. Y Llywydd a'r Is-Ganghellor yw prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifyddu'r Brifysgol sydd â chyfrifoldeb i'r Cyngor am y canlynol:

   - cynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn dda'r Brifysgol mewn modd cynaliadwy;
   - gwneud argymhellion i'r Cyngor;
   - gweithredu strategaeth a phenderfyniadau'r Cyngor;
   - cyflawni amcanion y cytunwyd arnynt;
   - amddiffyn enw da'r Brifysgol;
   - cyflwyno gwobrau, graddau ac anrhydeddau eraill i unigolion fel y'u cymeradwywyd gan y Senedd a'r Cyngor.

2. Gall y Llywydd a'r Is-Ganghellor enwebu unigolyn i ddirprwyo a mynychu unrhyw gyfarfod neu bwyllgor yn ei le

**C. Penodi Llywydd ac Is-Ganghellor Gweithredol**

1. Os bydd y Llywydd a'r Is-Ganghellor yn absennol am fwy na 3 mis, neu swydd y Llywydd a'r Is-Ganghellor yn wag, caiff y Cyngor benodi Llywydd ac Is-Ganghellor gweithredol ar argymhelliad pwyllgor dewis wedi'i sefydlu at y diben hwn.

2. Bydd y pwyllgor dewis yn cynnwys (ni fydd yr un ohonynt yn gymwys i wneud cais am y swydd wag):

   a. Cadeirydd y Cyngor, a fydd yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi;
   b. Dau aelod annibynnol arall a benodir gan, ac o'r Cyngor;
   c. Cynrychiolydd myfyrwyr sy'n aelod o'r Cyngor, a benodir gan Undeb y Myfyrwyr
   d. Dau aelod o'r Senedd, wedi'u henwebu gan y Senedd

4. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn gweithredu fel Ysgrifennydd y pwyllgor dewis.

5. Gall y Pwyllgor Penodi ofyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod yn bresennol.

6. Bydd Llywydd ac Is-Ganghellor gweithredol yn gweithredu naill ai hyd nes y bydd deiliad presennol y swydd yn ailafael yn ei ddyletswyddau, neu hyd nes y bydd penodiad parhaol yn cael ei wneud, neu am unrhyw gyfnod a bennir gan y Cyngor.

**D. Cwyn yn Ymwneud â'r Llywydd a'r Is-Ganghellor**

1. Dylid cyflwyno cwyn yn ymwneud â'r Llywydd a'r Is-Ganghellor i Gadeirydd y Cyngor a rhaid ymdrin â hynny'n unol â Pholisi a Gweithdrefn Cwynion y Brifysgol.

2. Ar gyfer cwynion a wneir gan yr Is-Ganghellor, dilynir y Polisi a'r Weithdrefn Cwynion, yn amodol ar yr addasiadau a ganlyn:

   a. Yn hytrach na chyfeirio at aelod staff, dylid cyfeirio felly at y llywydd a'r is-ganghellor
   b. yn hytrach na chyfeirio at y rheolwr / rheolwr llinell cyfrifol dylid cyfeirio felly at swydd Cadeirydd y Cyngor neu, os yw'r gŵyn yn ymwneud â Chadeirydd y Cyngor, aelod arall o'r Cyngor, a bydd unrhyw ymchwiliad yn cael ei gynnal gan aelod arall o'r Cyngor neu dan gyfarwyddyd aelod arall o'r Cyngor;
   c. yn hytrach na chyfeirio at y Llywydd a'r Is-ganghellor, dylid cyfeirio felly at Gadeirydd y Cyngor neu, os yw'r gŵyn yn ymwneud â Chadeirydd y Cyngor, aelod arall o'r Cyngor, a;
   d. pe bai'r Llywydd a'r Is-Ganghellor yn apelio yn erbyn canlyniad cwyn, bydd Cadeirydd yr Apêl yn aelod o'r Cyngor, ond ddim yn rhywun a gyflogir gan y Brifysgol, ar yr amod nad ydynt wedi ymwneud yn flaenorol â'r gŵyn.

**E. Camau disgyblu a diswyddo**

1. Gall cwyn sy'n gofyn am ddiswyddo'r Llywydd a'r Is-ganghellor gael ei gwneud gan ddim llai na thri aelod o'r Cyngor i Gadeirydd y Cyngor.

2. Os yw'n ymddangos i Gadeirydd y Cyngor, ar y deunydd sydd ger eu bron, bod y gŵyn yn codi achos prima facie ac a allai arwain yn rhesymol at ddiswyddo, symud o'i swydd neu rybudd ffurfiol ynghylch eu hymddygiad neu berfformiad, byddant yn gofyn i'r Cyngor benodi Tribiwnlys i glywed ar y mater a gwneud penderfyniad arno.

3. Os yw'n ymddangos i Gadeirydd y Cyngor nad yw cwyn a wneir o dan baragraff E.1 yn codi achos prima facie neu ei fod yn ddibwys neu'n annilys, gallant argymell i'r Cyngor na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach yn ei gylch.

4. Pan fydd cwyn i'w chyfeirio at Dribiwnlys, gall Cadeirydd y Cyngor atal, os yw'n briodol, y Llywydd a'r Is-Ganghellor o'u dyletswyddau. Tra bydd wedi ei atal, rhaid i'r Llywydd a'r Is-ganghellor beidio â chysylltu â chydweithwyr nac ymweld ag eiddo'r Brifysgol na chael mynediad at gyfleusterau'r Brifysgol gan gynnwys e-bost a chronfeydd data heb gael awdurdod yn gyntaf gan Gadeirydd y Cyngor. Byddai'r cyfryw awdurdod yn cael ei roi (yn amodol ar unrhyw amodau a ystyrir yn briodol) i alluogi'r Llywydd a'r Is-ganghellor i baratoi eu hymateb. Mae'r Llywydd a'r Is-ganghellor yn cadw'r hawl i gysylltu â'u cynrychiolydd Undeb Llafur. Ni fydd unrhyw benderfyniad i'w atal gan Gadeirydd y Cyngor yn cael ei ystyried yn sancsiwn disgyblu, bydd yn cael ei orfodi am gyfnod mor fyr ag sy'n briodol, a bydd yn cael ei adolygu yn ystod y broses o dan yr Ordinhad hwn.

5. Pan fydd y Cyngor wedi penodi Tribiwnlys o dan baragraff E.2 rhaid iddo gyfarwyddo cyfreithiwr neu unigolyn addas arall i lunio cyhuddiad neu gyhuddiadau a chyflwyno, neu drefnu i gyflwyno'r cyhuddiadau gerbron y Tribiwnlys.

6. Bydd Tribiwnlys a benodir gan y Cyngor yn cynnwys:

    a. Cadeirydd annibynnol; ac
    b. un aelod o'r Cyngor, nad yw'n rhywun a gyflogir gan y Brifysgol; ac
    c. un aelod o'r staff academaidd

7. Ni ddylai aelodau'r Cyngor a wnaeth y gŵyn o dan baragraff E.1 eistedd ar y Tribiwnlys.

8. Yn amodol ar egwyddorion cyfiawnder a thegwch a'r egwyddorion a nodir yng Nghod Ymarfer ACAS ar Ddisgyblaeth a Chwynion, caiff y Tribiwnlys bennu ei weithdrefn ei hun, neu amrywio'r weithdrefn briodol yn yr Ordinhadau, a hysbysu hyn yn ysgrifenedig i'r Llywydd a'r Is-ganghellor, ar yr amod y bydd gan y Llywydd a'r Is-ganghellor yr hawl i ymddangos mewn gwrandawiad yn y cnawd.

9. Yn dilyn y gwrandawiad, gall y Tribiwnlys, yn ôl amgylchiadau'r achos:

    a. beidio â chymryd unrhyw gamau ffurfiol; neu
    b. roi rhybudd ffurfiol neu rybudd terfynol; neu
    c. roi rhybudd o ddiswyddiad; neu
    d. ddiswyddo'r Llywydd a'r Is-Ganghellor yn syth heb rybudd.

10. Bydd y Tribiwnlys yn anfon ei benderfyniad gyda'i resymau, ar unrhyw honiadau a gyfeirir ato, ynghyd â'i ganfyddiadau ffeithiol ynghylch yr honiadau, a'i argymhellion, os o gwbl, ynghylch y gosb briodol i Gadeirydd y Cyngor ac at y Llywydd a'r Is-Ganghellor, yn tynnu sylw at y cyfnod o amser y dylid gwneud unrhyw apêl a'r dull o gyflwyno apêl.

11. Ar ôl derbyn apêl, bydd Cadeirydd y Cyngor yn penodi Panel Apêl. Bydd Panel Apêl yn cynnwys:

    a. Cadeirydd annibynnol ("Cadeirydd yr Apêl"); ac
    b. un aelod o'r Cyngor, nad yw'n rhywun a gyflogir gan y Brifysgol; ac
    c. un aelod o'r staff academaidd

12. Ni ddylai aelodau'r Cyngor a wnaeth y gŵyn o dan baragraff E.1 a eisteddodd ar y Tribiwnlys, eistedd ar y Panel Apêl.

13. Bydd Cadeirydd yr Apêl, yn amodol ar egwyddorion cyfiawnder naturiol a thegwch, ac o ystyried yr egwyddorion a nodir yng Nghod Ymarfer ACAS ar Ddisgyblaeth a Chwynion, yn pennu'r weithdrefn i'w mabwysiadu wrth wrando ar unrhyw apêl.

14. Bydd yr apêl yn adolygiad o'r penderfyniad a gymerwyd gan y Tribiwnlys. Ni chaniateir cyflwyno tystiolaeth newydd i'r Panel Apêl, na galw ar unrhyw dystion, oni bai bod y Panel Apêl yn fodlon bod rhesymau eithriadol pam na chynhyrchwyd tystiolaeth neu dystion o'r fath yn y gwrandawiad disgyblu a'i bod yn angenrheidiol er tegwch, wrth adolygu penderfyniad y rheolwr disgyblu, i'r Panel Apêl ystyried y dystiolaeth hon neu glywed gan y tystion dan sylw.

15. Gall y Panel Apêl:

    a. gadarnhau'r camau a gymerwyd; neu
    b. wrthod y camau a gymerwyd; neu
    c. leihau lefel y camau a gymerir.

16. Bydd y Panel Apêl yn anfon ei benderfyniad ysgrifenedig cwbl resymol ar yr apêl, a'i argymhellion, os o gwbl, ynghylch y gosb briodol, at Gadeirydd y Cyngor ac at y Llywydd a'r Is-ganghellor.

17. Pan fydd honiad neu honiadau wedi cael eu cadarnhau gan y panel, neu pan fydd yr honiadau'n cael eu cadarnhau ar apêl gan Gadeirydd yr Apêl, bydd Cadeirydd y Cyngor yn pennu'r gosb briodol, hyd at a chan gynnwys diswyddo'r Llywydd a'r Is-ganghellor i'r Cyngor. Os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu diswyddo'r Llywydd a'r Is-ganghellor ac, os bydd y Llywydd a'r Is-ganghellor yn apelio, a'r Panel Apêl wedi cadarnhau'r penderfyniad hwn, bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyfarwyddo'r Prif Swyddog Gweithredu i ddiswyddo'r Llywydd a'r Is-ganghellor.

18. At ddibenion diswyddo'r Llywydd a'r Is-ganghellor am berfformiad gwael, neu am analluogrwydd am resymau meddygol, dilynir y Polisi Gallu a Chefnogi Perfformiad, yn amodol ar yr addasiadau a ganlyn:

    a. yn hytrach na chyfeirio at aelod o staff, cyfeirir at y Llywydd a'r Is-ganghellor / Ysgrifennydd i'r Cyngor (fel y bo'n briodol);
    b. gall unrhyw gyfeiriad at gyngor meddygol gynnwys tîm Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol a/neu gyngor allanol;
    c. yn hytrach na chyfeirio at y rheolwr/ rheolwr llinell cyfrifol, cyfeirir at Gadeirydd y Cyngor;
    d. yn hytrach na chyfeirio at y Llywydd a'r Is-ganghellor, dylid cyfeirio felly at Gadeirydd y Cyngor, a;
    e. rhaid gwrando ar unrhyw apêl, a gwneud penderfyniad yn ei gylch, yn unol â'r darpariaethau a nodir yn yr Ordinhad hwn.